

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 26AIN O HYDREF 2020 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Ceri Davies, Iwan Jones, Arwel Davies, Stan Williams, Hywel Davies, Philip Williams, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Bari Evans a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Cynghorydd Ceri Davies a'r eitem 9E isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Fedi 2020 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth y Pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch am y rhodd y Cyngor o £1,000.00 yn ddiweddar.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth y Pennaeth Ysgol Pant Pastynog am y rhodd y Cyngor o £1,000.00 yn ddiweddar.

C. Penderfynwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych at y materion canlynol:-

1. Draen wedi ei thagu wrth Yr Hen Ysgol ar ffordd Penbrynllan yn Llanrhaeadr - ar ôl archwiliad mae angen trwsio'r draen cyn gynted â phosib.

2. Ffordd heibio Capel-y-Wern a Thyddyn Isa' eisiau ei thrwsio cyn gynted â phosib - wedi ei thrwsio erbyn hyn.

3. Eisiau llochesi fysiau ar y A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr pob ochr i'r ffordd wrth Hafod-y-Bryn - nos oes gan y Cyngor Sir y cyllid i brynu'r llochesi sydd ar gost oddeutu £5,000 yr un hen gost llafur.

4. Derbyniwyd adroddiad unwaith eto'r Cyngor Sir Ddinbych fod safle'r Sir wrth Brÿn Glas yn Saron ddim yn orlawn gyda baw'r ffyrdd. Cytunodd y Cynghorydd Sir, Joe Welch, i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn ar broblem.

D. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio 23/2020/0616 - newid defnydd cwrtil domestig i ddarparu carafán sefydlog yn Tan-yr-Onnen, Llanrhaeadr.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Adroddwyd y Cadeirydd fod yna ymateb da i'r cylchlythyr a dosbarthwyd i'r trigolion y Gymuned ac mi fydd canlyniad yr holiadur ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc gyrru llythyr o ddiolch i'r perchnogion Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr am y gwasanaeth di ben meant wedi rhoi'r gymuned yn ystod yr pandemic Cofid-19.

8. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £13,621.77.

B. Talid i Pentre Motors am gostau stampiau ar gyfer llythyrau holiaduron cymunedol y Band Eang - £163.80.

C. Derbyniwyd llythyr am gymorth arian oddi wrth Dr. Gerwyn Jones, Cadeirydd Clwb Ieuencid Clwb Peldroed Henllan yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau ychwanegol oherwydd y rheolau'r Cofid-19. Penderfynwyd ar y rhodd o £300.00.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

A. Cais cynllunio 23/2020/0496 - Dymchwel estyniad deulawr presennol a rhan o adeiladau allanol. Codi estyniad deulawr, estyniad i'r llawr cyntaf, addasiadau i gynllun ffenestri, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn Ffordd Las, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

B. Cais Cynllunio 23/2020/0658 – Codi adeilad amaethyddol newydd a gwaith cysylltiedig yn Llindir, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

C. Cais Cynllunio 23/2020/0659 – Addasu adeilad allanol i ffurfio cyfleusterau trin ffisiotherapi a gwaith cysylltiedig yn Llindir, Llanrhaeadr dim gwrthwynebiad.

D. Cais Cynllunio 23/2020/0749 - Codi garej ar wahân deulawr a gwaith cysylltiedig yn The Oaks, Llanrhaeadr - penderfynwyd rhoi'r sylwadau canlynol:

“1. Over intensification of the site.

2. Not suitable to the existing dwelling as it is a two storey building garage to the one storey dwelling of the bungalow.”

E. Cais Cynllunio 23/2020/0776 – Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig yn Bwlch-y-Gynog, Saron – dim gwrthwynebiad.

10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd yr ymholiad canlynol oddi wrth un o'r trigolion Pont-y-Bedol, Llanrhaeadr:-

“Hoffwn ymholi i'r sefyllfa ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus sydd rhwng fy eiddo i, sef rhif 1, Pont y Bedol, Llanrhaeadr, a Chae'r Felin.

Mae 3 coeden fythwyrdd enfawr ar y llwybr. A'i chyfrifoldeb y cyngor yw sicrhau nad yw cangen neu goeden yn achosi difrod i'm heiddo? Ar y funud mae'r coed yn hongian yn uchel uwchben fy eiddo, yn rhwystro goleuni ac yn dipyn o boen meddwl yn ystod gwyntoedd cryf a stormydd y gaeaf.

Hoffwn wneud cais i'r coed gael eu dymchwel neu eu torri lawr i lefel ddiogel.

Buaswn yn ddiolchgar petaech yn cael golwg ar y sefyllfa ac yn ymateb mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.”

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw fater at Gyngor Sir Ddinbych.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Joe Welch fod y cais cynllunio 23/2020/0067 - gwaith peirianyddol arfaethedig i ffurfio llyn pysgota, llwybrau mewnol, maes parcio a gwaith cysylltiedig yn Gaer Mynydd Carafan Park, Caer Mynydd Farm, Saron yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych a'r 11eg o Dachwedd 2020.

12. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

- 1: Twll yn y ffordd wrth yr "Hen Vicarage" yn Llanrhaeadr.
 - 2 Gwlia' u wedi tagu a mwd ar y llwybr troed wrth Faes Hwylfa, Llanrhaeadr.
 3. Eisiau golau gwell wrth y llochesi bwysiau yn yr hen lan Llanrhaeadr.
 4. Twll yn y ffordd wrth Berllan Fach ym Mhrion.
 5. Dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Tan-y-Garth a Cae Glas rhwng Prion a Peniel.
 6. Tyllau yn y ffordd rhwng Pen-y-Gerddi a Fferm y College ym Mheniel.
 7. Twll yn y ffordd wrth Feini Diddos ym Mhrion.
 8. Dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Y Bwlch a Tanrallt thwng Prion a Peniel.
 9. Plât arwydd groesffordd ar goll rhwng pentref Saron a Bryn Glas, Saron.
- B. Penderfynwyd trafod sgipiadau cymunedol y gymuned yn y flwyddyn newydd.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – nos Lun 30ain o Dachwedd 2020 am 7.30 o'r gloch.

14. CADWCH YN IACH A DDIOGEL.